OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 442

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

## RHAN 3

### Gofynion ynglŷn â chyfarfodydd

**Pryd y caniateir cynnal cyfarfodydd blynyddol penodol**

**6.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â phrif gyngor nad yw wedi cynnal cyfarfod blynyddol—

(a) ar neu ar ôl 1 Mawrth 2020, a

(b) cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(2) Mae Atodlen 12 i Ddeddf 1972 (cyfarfodydd a thrafodion awdurdodau lleol) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod, ym mharagraff 1(2) (cyfarfodydd blynyddol prif gynghorau), o flaen paragraff (b)(**1**)—

"(ab) in 2020, on such day in 2020 as the proper officer of the council may fix;".

(**1**) Diwygiwyd paragraff 1(2)(b) gan adran 1(6) o Ddeddf Etholiadau 2001 (p. 7).